

Mae'r Daflen Wybodaeth hon yn rhoi arweiniad ar sut i sicrhau defnydd diogel o gerbydau, ac mae'n un o gyfres o Daflenni Gwybodaeth sy'n cefnogi'r *Safon Polisi Diogelwch Gyrwyr a Cherbydau*.

Gan mai gyrru, o bosibl, yw'r dasg fwyaf peryglus y bydd staff a myfyrwyr yn ei gwneud yn ystod eu cyfnod yn y Brifysgol, mae'n hanfodol bod Colegau / Gwasanaethau'n darparu ac yn gweithredu cerbydau diogel ac addas.

Mae gan bob Coleg / Gwasanaeth ddyletswydd i ddarparu cerbyd sy'n addas i'r ffordd fawr, ac felly mae'n ofynnol iddynt roi trefniadau rheoli addas ar waith i gyflawni hyn. Mae'r Daflen Wybodaeth hon yn rhoi cyngor ar yr hyn a ddisgwylir o ran diogelwch cerbydau a sut i sicrhau y cydymffurfir â'r gyfraith a safonau'r Brifysgol.

Asesiad Risg

Rhaid i bob Coleg/Gwasanaeth baratoi asesiad risg addas a digonol ar gyfer cerbydau a ddefnyddir a / neu'r gwaith gyrru a gyflawnir fel rhan o'u gweithgareddau. Yn ogystal, rhaid i Golegau / Gwasanaethau sicrhau bod pob cerbyd yn:

- Addas i'r diben.
- Addas i'w yrru ar y ffordd fawr ac yn gyfreithlon ar y ffordd, e.e. MOT, Treth, Yswiriant.
- Cael ei gynnal a'i chadw a'i archwilio'n rheolaidd.

Goruchwyliwr Cerbydau

Os yw Coleg / Gwasanaeth yn gweithredu ac yn berchen ar nifer o gerbydau, neu os oes ganddynt nifer o gerbydau ar brydles (hir), awgrymir bod aelod o staff yn cael ei ddynodi'n Oruchwyliwr Cerbydau'r Coleg / Gwasanaeth. Rhaid i'r person hwn sicrhau bod trefniadau archwilio, cynnal a chadw a phrofi y cytunwyd arnynt yn cael eu cynnal ar gyfer pob cerbyd er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'w yrru ar y ffordd fawr a bod cofnodion cysylltiedig yn cael eu cadw. Gallant hefyd gyfarwyddo gyrwyr newydd am y cerbydau.



Dewis Cerbyd: Prynu / Prydles Hirdymor

Cyn prynu neu brydlesu cerbyd, rhaid i bob Coleg / Gwasanaeth asesu ei anghenion a'r defnydd y bwriedir ei wneud o'r cerbyd. Rhaid i gerbydau fod yn addas ar gyfer yr holl weithgareddau a ragwelir gan roi ystyriaeth i'r materion canlynol cyn penderfynu pa gerbyd i'w brydlesu neu ei brynu:

- Y tir lle bydd y cerbyd yn cael ei ddefnyddio.
- Nifer y teithwyr i'w cludo.
- Lle bo'n berthnasol, y math o offer a deunyddiau i'w cludo.
- Nodweddion diogelwch y cerbyd a'i sgôr Diogelwch Ewropeaidd (graddfa E-NCAP).
- Gwahanu gyrrwr / teithiwr neu deithwyr oddi wrth unrhyw eitemau sydd wedi'u storio (cargo, offer ac ati).
- Pa mor gyffyrddus yw'r cerbyd i'r gyrrwr a pha mor hawdd yw'r cerbyd i'w yrru a'i barcio.
- Sgôr gwyrdd y cerbyd o ran yr amgylchedd.

Rhaid i bob cerbyd a brynir neu a brydlesir ar sail hirdymor gael ei gofnodi ar Restr Yswiriant y Brifysgol trwy'r Swyddfa Gyllid. **Sylwer:** Rhaid llenwi'r Ffurflen Cyflwyno Yswiriant Cerbyd ar-lein ar gyfer llogi cerbydau cyffredinol eraill, e.e. llogi car / bws mini am wythnos o hyd i fynd i gynhadledd.

Addas i'r Diben

Dylai pob cerbyd fod yn addas i'r diben. Er enghraifft:



- Dylai cerbydau a ddefnyddir i gyrraedd y morlin a chludo offer fod â lle addas i storio pethau a dylent fod yn ddigon cadarn i ymdopi â thir garw. Dylai cerbyd gyriant pedair olwyn fod yn ofyniad hefyd os rhagwelir gwaith tir 'corsiog' neu arw (**Sylwer:** efallai y bydd angen hyfforddiant penodol ar yrwyr cerbydau gyriant pedair olwyn i'w gweithredu a'u cynnal a'u cadw'n ddiogel).
 - Os yn bosibl, dylai fod gan gerbydau a ddefnyddir i symud offer a deunyddiau bared ar wahân a chapasiti llwyth digonol (pwysau llwytho / echel).
- Os bydd cerbyd yn cael ei ddefnyddio i dynnu, dylai'r capasiti fod yn fwy na'r pwysau 'tynnu' a ragwelir. Efallai y bydd angen hyfforddiant penodol ar yrwyr cyn cael caniatâd i dynnu (gweler *Taflen Wybodaeth DV4: Trelars a Thynnu Cerbydau'n Ddiogel*).
 - Ni ddylid defnyddio cerbydau megis ceir a bysiau mini i gludo offer a deunyddiau, oni bai bod modd gosod y llwyth yn sownd i'w hatal rhag torri'n rhydd. Gall capasiti cerbyd sy'n deillio o gar i gario llwyth fod yn gyfyngedig, a gall y llwyth sy'n cael ei gludo effeithio'n sylweddol ar sut fydd y cerbyd yn cael ei yrru.

Sgôr Diogelwch Cerbyd

Cynhelir profion ar y rhan fwyaf o gerbydau a werthir yn yr Undeb Ewropeaidd i asesu eu diogelwch a'u perfformiad mewn damwain ffordd, ac mae'r profion hyn yn ymgorffori diogelwch cerddwyr a allai ddod i gysylltiad â'r cerbyd. Cyn prynu neu brydlesu cerbyd, dylid asesu sgôr E-NCAP (*Rhaglen Asesu Ceir Newydd Ewrop*) cerbydau, gan roi ystyriaeth i brynu / prydlesu'r cerbyd sydd â'r sgôr diogelwch uchaf. Mae canlyniadau asesu ceir ar-lein ar gael yn: www.euroncap.com

Os nad oes sgôr E-NCAP ar gael, dylid gwneud pob ymdrech i ganfod sgôr diogelwch perfformiad a chynllun y cerbyd, gan gynnwys ei berfformiad diogelwch yn ystod damwain.

Mae ffynonellau gwybodaeth defnyddiol eraill wrth ddewis cerbyd yn cynnwys gwybodaeth ystadegol yr Adran Drafnidiaeth ar ystadegau anafiadau i yrwyr cerbydau mewn damweiniau sy'n cynnwys dau gar¹ a chanllawiau RoSPA / DfT '[Dewis Cerbydau Mwy Diogel](#)'.

Gwiriadau Gyrru Sylfaenol

Dylai pob gyrrwr gynnal Gwiriad Gyrru sylfaenol ar gerbyd cyn cychwyn ar daith; mae hyn yn cynnwys cerbydau y mae'r Coleg / Gwasanaeth yn berchen arnynt / cerbydau ar brydles, ceir wedi'u llogi a cheir eu hunain. Dylai gwiriadau gynnwys:

- Teiars ac olwynion.
- Goleuadau (dangosyddion, brecioau, ac ati).
- Goleuadau Rhybudd (ar y dangosfwrdd).

¹ Mae'r wybodaeth hon ar gael drwy'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a Gwefan yr Adran Drafnidiaeth www.dddt.gov.uk a chwiliwch: *Ceir, Gwneuthuriad a Model*.

- Gwregysau diogelwch.
- Sychwyr sgrin wynt a dŵr.
- Cyflwr y ffenestr flaen (marciau, craciau).

Archwiliadau / Cynnal a Chadw Cerbydau'n Wythnosol

Mae'n rhaid i Golegau / Gwasanaethau gynnal a chofnodi Archwiliadau / gwaith Cynnal a Chadw wythnosol ar unrhyw gerbydau y maent yn berchen arnynt / cerbydau ar brydles. Gall y Goruchwyliwr Cerbydau (os caiff ei benodi) neu berson cymwys arall sydd â rhywfaint o sgiliau gwasanaethu sylfaenol, wneud y gwiriadau hyn. Mae hyfforddiant a chyfarwyddyd ar sut i wneud Gwiriadau Wythnosol ar gael gan y Swyddfa Iechyd a Diogelwch.

Dylai Gwiriadau Wythnosol o leiaf gynnwys asesu'r canlynol:

- Pwysau teiars.
- Dyfnder a chyflwr gwadn teiars.
- Lefelau hylif olew a'r breciau.
- Lefelau oerydd dŵr a golchwr.
- Sychwyr sgrin wynt.
- Sgrin wynt, ffenestri a drychau.
- Goleuadau a goleuadau rhybudd.
- Gwregysau diogelwch a gweithrediad.
- Y gallu i yrru, gan gynnwys llywio a'r breciau.
- Cyflwr cyffredinol y cerbyd, y tu mewn a'r tu allan.

GWELER GWEFAN y GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH AM FFURFLENNI ARCHWILIO CERBYDAU WYTHNOSOL A MISOL.

Gwasanaethu a Chynnal a Chadw Cerbydau'n Ffurfiol

Fel gyda phob offer a allai fod yn beryglus, mae'n hanfodol bod cerbydau'n cael eu harchwilio, eu cynnal a'u cadw a'u gwasanaethu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn addas ar gyfer y ffordd fawr.

Dylid gwirio 'cerbydau sy'n eiddo i'r Coleg / Gwasanaeth, neu gerbydau y mae'r Coleg / Gwasanaeth wedi'u prydlesu, yn wythnosol. Yna dylid gwneud gwaith gwasanaethu a chynnal a chadw ychwanegol (gan gynnwys cerbydau sydd ar brydles hirdymor) yn unol â'r argymhellion a nodir yn Llawlyfr y Gwneuthurwr a'r Perchennog, a / neu o leiaf unwaith y flwyddyn, gan garej gofrestredig a Chanolfan Brawf MOT.

Rhaid cadw cofnodion o'r gwasanaethu a Thystysgrifau Prawf MOT yn ganolog gan y Coleg / Gwasanaeth. Dylid penodi aelod o staff, o bosibl y Goruchwyliwr Cerbydau neu Weinyddwr, i sicrhau bod pob cerbyd yn cael ei wasanaethu a'i brofi'n unol â gofynion y gwneuthurwr.

Treth Ffordd

Dylai pob Coleg / Gwasanaeth sydd â cherbydau sy'n cael eu gyrru ar y ffordd enwebu aelod o staff i weinyddu'r broses o brynu ecseis ffordd (Disgiau Treth).

Lle bo'n ymarferol, dylid prynu Disgiau Treth ar-lein er mwyn lleihau'r posibilrwydd y bydd gwaith papur pwysig (Tystysgrif MOT, Llyfr Log ac ati) yn cael ei golli. Os nad yw'n bosibl cofrestru ar-lein, rhaid derbyn y Dystysgrif MOT wreiddiol a'r Ffurflen Atgoffa Adnewyddu Treth (neu'r llyfr log).

Os nad oes angen trethu cerbyd mwyach ac os nad yw'n cael ei yrru ar ffordd gyhoeddus, rhaid cwblhau'r HOS (hysbysiad oddi ar y ffordd statudol) a'i ddychwelyd i'r DVLA.

Cerbydau wedi'u Llogi Tymor Byr

Lle bo aelodau staff yn rhentu cerbyd ar drefniant llogi tymor byr mae rheolaeth y Coleg / Gwasanaeth dros y cerbyd yn gyfyngedig. Cyn llogi unrhyw gerbyd, dylai'r aelod o staff sy'n awdurdodi llogi sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol:

- Bod y cerbyd llogi yn addas i'r dasg.
- Mae gyrrwr y cerbyd wedi'i awdurdodi (gweler *Taflen Wybodaeth DV1: Cymeradwyo'r Gyrrwr*).
- Mae Cyflwyniad Yswiriant Cerbyd ar-lein y Swyddfa Gyllid wedi'i gwblhau.

Lle bo modd, dylid llogi cerbydau drwy gyflenwyr cymeradwy'r Brifysgol, y mae rhestr ohonynt ar gael gan y Swyddfa Gyllid.

Gwerthfawrogi fod Gwasanaethau / Colegau yn llogi cerbydau arbenigol yn achlysurol, nad ydynt ar gael gan gyflenwyr cymeradwy. Mewn achosion o'r fath, dylid gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod y cyflenwr yn gymwys ac yn broffesiynol a bod y cerbyd sydd wedi'i logi'n ddiogel, yn gyfreithlon ac yn addas ar gyfer y ffordd fawr.

Fel gyda phob cerbyd sy'n mynd ar y ffordd, dylai'r gyrrwr wneud Gwiriadau Gyrru syml cyn cychwyn.

Cerbydau Preifat

Nid yw cerbydau preifat yn cael eu dosbarthu fel offer gwaith; fodd bynnag, rhaid i bob Coleg / Gwasanaeth fodloni ei hun, hyd eithaf ei allu, bod ceir preifat a ddefnyddir yng nghwrs busnes y Brifysgol yn addas i'r diben a, chyn belled ag y bo'n rhesymol, yn addas i'r ffordd fawr, ac yn gyfreithlon ar gyfer y ffordd.

Rhaid i aelodau staff (a phobl eraill) sy'n defnyddio eu ceir eu hunain ar fusnes y Brifysgol feddu ar drwydded yrru ddilys a phriodol, wedi'u hyswirio (*Defnydd Busnes* wedi'i gynnwys ar yswiriant cerbyd personol) a rhaid iddynt gyflawni eu rhwymedigaethau cyffredinol a chyfreithiol eraill e.e. MOT, Treth.

Mae'r *Llawlyfr Diogelwch Gyrrwr a Theithwyr* yn darparu rhagor o wybodaeth am y gofynion hyn yn ogystal â chynnig rhywfaint o gyngor defnyddiol ar ddiogelwch cyffredinol gyrrwr a cherbydau, er enghraifft, cynllunio teithiau, gwiriadau cerbyd sylfaenol, beth i'w wneud mewn argyfwng.